Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

**Teitl:** **Adroddiad Arolygu CAFCASS CYMRU**

**Dyddiad:** **23 Tachwedd 2010**

**Gan:** **Gwenda Thomas, y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol**

Heddiw, mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) wedi cyhoeddi ei adroddiad arolygu cyntaf am CAFCASS CYMRU.

Yn yr arolygiad, rhoddwyd y dyfarniad *Boddhaol* i CAFCASS CYMRU yn y categori Effeithiolrwydd Cyffredinol ac *Annigonol* ar gyfer y Gallu i Wella.

Hysbyswyd CAFCASS CYMRU am ganfyddiadau'r arolygiad a'r adroddiad. Mae'r Prif Weithredwr newydd wedi croesawu'r adroddiad gan ei fod yn rhoi asesiad annibynnol a llinell sylfaen ar gyfer symud y sefydliad ymlaen ac ychwanegu at y cryfderau a nodwyd.

Roedd yr arolygiad yn un cynhwysfawr, a bu'r arolygwyr yn cyfarfod ag amrywiaeth eang o randdeiliaid a sefydliadau, rhieni, gofalwyr, plant, pobl ifanc a staff, gan edrych ar adroddiadau, ffeiliau achos ac arsylwi ar yr ymarferwyr. Er mwyn sicrhau cysondeb a gallu cymharu'n rhwydd, mae AGGCC wedi addasu'r fframwaith arolygu a ddefnyddiwyd i arolygu CAFCASS yn Lloegr.

Mae'n bleser gen i nodi bod "effeithiolrwydd cyffredinol" CAFCASS CYMRU wedi'i ddyfarnu'n foddhaol, yn enwedig mewn nifer o feysydd hollbwysig megis – ymatebolrwydd y gwasanaeth, diogelu, asesu, ymyrryd a gwaith uniongyrchol gyda phlant, datblygu'r gweithlu, adrodd ac argymell a chydraddoldeb ac amrywiaeth. Rwy'n croesawu sylwadau'r arolygwyr ynghylch ansawdd yr ymarfer, a hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch a chydnabod y gwaith y mae staff CAFCASS CYMRU yn ei wneud i ddiogelu a

hyrwyddo lles plant, sydd,  a hynny mewn sefyllfaoedd cymhleth iawn ar brydiau. Fodd bynnag, allwn ni ddim fforddio bod yn hunanfodlon, ac mae'r adroddiad hefyd yn nodi meysydd gwaith pwysig lle mae angen i CAFCASS CYMRU wella'i berfformiad a'i wasanaeth. O dan arweiniad y Prif Weithredwr newydd, mae'r gwaith wedi dechrau eisoes i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Mae'r adroddiad arolygu wedi nodi tystiolaeth hefyd bod cynnydd wedi'i wneud mewn perthynas â nifer o'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol am CAFCASS CYMRU a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2009, yn enwedig o ran y dull gweithredu mewn perthynas â hawliau'r plentyn a'r gwaith achos unigol gyda phlant a phobl ifanc.

Rwyf wedi gofyn i Brif Weithredwr newydd CAFCASS CYMRU, a ddechreuodd yn ei swydd ar 1 Tachwedd 2010, adolygu strwythur y sefydliad, paratoi cynllun gweithredu a rhaglenni gwaith er mwyn nodi'n glir sut y bydd yn gyrru ymlaen â'r gwelliannau sydd eu hangen i'r gwasanaeth. Bydd hi'n adrodd yn ôl imi erbyn mis Chwefror 2011. Bydd AGGCC yn monitro'r cynnydd yn y gwelliannau drwy broses adolygu flynyddol hefyd.

Rwy'n benderfynol o weld CAFCASS CYMRU yn mynd ati i sicrhau ei fod yn gweithredu argymhellion yr adroddiad, a bydd hynny'n helpu i wella canlyniadau i blant ar draws Cymru.